# ASESIAD LLESIANT – DOGFEN WYBODAETH: ECONOMI

## 1. Cyflwyniad

Yn sgil prosiect Deall ein Cymunedau, erbyn hyn mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn deall y pethau da am gymunedau, yr hyn sydd fwyaf pwysig i bobl a sut gall eu profiadau a'r hyn sydd gyda nhw i'w gynnig ein helpu ni i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Pwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wella llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pobl a chymunedau, ac yn gweithio mewn ffyrdd a fydd yn helpu i greu gwlad rydyn ni am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd rhaid i wasanaethau cyhoeddus wneud y canlynol:

- Ystyried y tymor hir;
- Ceisio atal problemau;
- Ceisio cyfrannu at saith nod llesiant y Ddeddf ym mhopeth maen nhw'n ei wneud;
- Gweithio'n well gyda'i gilydd; a
- Gweithio'n well gyda phobl a chymunedau.

O dan y Ddeddf yma, rhaid i wasanaethau cyhoeddus gynnal a chyhoeddi Asesiad Llesiant, sy'n edrych ar y sefyllfa o ran llesiant y bobl yn yr ardal honno, pobl sydd mewn cymunedau penodol o fewn yr ardal honno ac ystyried sut mae'r sefyllfa yn debygol o fod yn y dyfodol.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn cysylltu'r amgylchedd rydyn ni'n byw ynddo, yr economi rydyn ni'n gweithio ynddo, y gymdeithas rydyn ni'n ei mwynhau a'r diwylliannau rydyn ni'n eu rhannu, â'r bobl ac ansawdd eu bywyd. Mae'n bwysig deall sut mae'r gwahanol elfennau llesiant hyn yn ymwneud â phrofiadau bywyd pobl yn eich ardal leol a gwahanol gymunedau yn eich ardal.


Yng Nghwm Taf, rydyn ni wedi bod yn casglu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Llesiant gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau polisi a chomisiynu mewn perthynas â'r gwasanaethau, y bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau.

Wedyn fe dreulion ni peth amser yn siarad â'r bobl hyn am y penawdau a ddaeth i'r amlwg dan bob thema, gan ystyried sut maen nhw'n effeithio ar lesiant a'r effaith debygol ar gymunedau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae crynodeb o'r penawdau sy'n ymwneud â llesiant economaidd wedi'u cynnwys yn y ddogfen yma. Mae'r ddogfen yn dangos sut mae pob pennawd yn ymwneud â llesiant a sut mae llesiant economaidd yn ymwneud â themâu llesiant eraill.

Mae'r brif wybodaeth ar draws yr holl themâu llesiant wedi'i chynnwys yn Asesiad Llesiant Cwm Taf. Mae pob lefel o'r Asesiad yma yn cael ei chefnogi gan lefel fwy manwl o ddata a gwybodaeth. Bydd yr holl wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu drwy gydol y prosiect ar gyfer llywio'r penawdau hyn hefyd ar gael yn y llyfrgell ar-lein.

***Ffigur 1: Strwythur Asesiad Llesiant Cwm Taf***




## 2. Llesiant economaidd

Yn ôl y nod llesiant, “Cymru lewyrchus”, mae llesiant yn “gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas”.

Yn ôl pobl Cwm Taf mae'r term “llesiant economaidd” yn golygu cael swydd a chael arian. Gall sgiliau a gwybodaeth pobl ddylanwadu ar eu cyfleoedd cyflogaeth, sydd

yn ei dro yn eu galluogi nhw i gynhyrchu cyfoeth. Mae cynhyrchu cyfoeth yn bwysig oherwydd mae arian yn hanfodol i fywyd[1].

Dyma'r diffiniad o lesiant sy'n cael ei gynnig gan Dodge *ac eraill (2012): "the balance point between an individual's resource pool and the challenges faced". Mae gwahaniaethau unigol o ran gallu unigolion i gynhyrchu cyfoeth yn cael eu hadlewyrchu yn yr heriau sy'n wynebu'r bobl sy'n byw yng Nghwm Taf.*

## 3. Penawdau

***Tyfu economi leol gydnerth sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang.***

Yn ogystal â gwledydd datblygedig eraill, mae gan Gymru gyfradd defnyddio adnoddau naturiol allweddol uwch na'r cyfartaledd byd-eang ac ôl troed carbon uwch. Bwyd, defnydd ynni'r cartref a theithio preifat yw'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ein hôl troed ecolegol. Cludiant ar y ffyrdd a defnydd trydan a nwy yn y cartref[2] sy'n cyfrannu fwyaf at ein hôl troed carbon.

Her allweddol yw creu cyflwr tymor hir lle byddwn ni'n symud tuag at ddull cynaliadwy o ran cynhyrchu a darparu gwasanaethau a nwyddau hanfodol sydd ar gael i bawb. Mae'r gwasanaethau a nwyddau hanfodol hyn yn cynnwys bwyd o ansawdd, trafnidiaeth gynaliadwy a thai gweddus, ar y cyd ag amwynderau i bobl gael cymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i gymdogaethau deniadol a mannau agored).

Soniodd ein cymunedau am adfywio ffisegol fel ffordd o greu mannau sy'n denu buddsoddiad a busnes[3]. Mae gan hyn botensial i ddatblygu cydnerthedd trwy gynllunio trefol cynaliadwy ar y cyd â datblygu seilwaith gwyrdd[4] i wella'r amodau ar gyfer busnesau a thrigolion lleol.

Cafodd yr hyn mae trigolion yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer eu llesiant economaidd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol hefyd ei ystyried yn rhan o'r sgwrs. Yn ystod y sgwrs yma, roedd pobl hŷn yn tueddu i fod o'r farn roedden nhw, o bosibl, yn cael trafferth, ond roedden nhw mewn sefyllfa gymharol gryf o'u cymharu â phobl ifainc. Roedden nhw o'r farn bydd "pethau'n gwaethygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a'r bobl ifainc yw'r rhai a fydd yn teimlo effaith y toriadau mewn gwirionedd" (Whealle, 2016).

---

[1] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016)
[2] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (2016) mapiau rhyngweithiol $CO_2$ yn ôl Awdurdod Lleol (2014)
[3] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016)
[4] Ymddiriedolaeth Natur Cymru (2016) Green infrastructure

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Pe bydden ni'n gallu adeiladu ein heconomi leol yn seiliedig ar gynllunio trefol cynaliadwy a seilwaith gwyrdd, bydden ni'n debygol o greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a thrigolion lleol.

## O beidio â chynnal neu wella llesiant mewn perthynas â'r pennawd yma, beth yw'r risgiau?

Yr amgylchedd naturiol yw un o gonglfeini ein heconomi. Mae polisïau cynllunio a chynlluniau datblygu lleol yn penderfynu sut bydd modd defnyddio tir y tu mewn i ffin yr awdurdod lleol. Mae angen i ni sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn canolbwyntio ar ddefnydd cadarnhaol yr amgylchedd naturiol trwy gynllunio trefol cynaliadwy ac egwyddorion seilwaith gwyrdd i gefnogi twf economi leol gydnerth.

Yn ogystal ag economi sy'n cydnabod cyfraniad gwaith cyflogedig[5] at lesiant, mae cyfraniad gwaith di-dâl neu waith gwirfoddol. Mae gwirfoddoli'n gyfraniad nad yw'n ariannol i'r economi sy'n “vital to charities and civil society, helps to strengthen local communities, and improves the wellbeing of individuals who participate”. Yn sgil asesu'r cyfraniad yma yn anaml o ran materion ariannol mae “risk that we undervalue and under-invest in policies which promote volunteering” (Fujiwara ac eraill 2013).

Mae'n bosibl i dwf economaidd a chreu swyddi newydd leihau'r gwariant ar les. Yn ôl amcangyfrif Beatty and Fothergill (2014) mae'r diwygiadau lles yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n byw ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Maen nhw'n amcangyfrif gostyngiad cyfartalog o £720 y flwyddyn i bob oedolyn o oedran gweithio ym Merthyr Tudful a £670 y flwyddyn i bob oedolyn o oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y ddwy ardal yn uwch na chyfartaledd Cymru (£550) a chyfartaledd Prydain Fawr (£470)[6]. Yn ôl amcangyfrif, mae disgwyl bydd y cymunedau a fydd yn dioddef fwyaf – sef y Maerdy a Phen-y-waun (Rhondda Cynon Taf) a'r Gurnos (Merthyr Tudful) – yn colli mwy na £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae modd disgwyl i'r golled yma o ran budd-daliadau gael effaith negyddol ar wariant defnyddwyr.

## Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n helpu mewn perthynas â'r pennawd yma?

Dim ond hyn a hyn o wybodaeth sydd gennym ni ynglŷn â sut mae gwahanol elfennau llesiant yn ymwneud â phobl mewn gwahanol gymunedau yng Nghwm Taf.

[5] Gweler pennawd 3.3
[6] I gael rhagor o fanylion am effaith y diwygiadau lles ar wardiau'r Cymoedd, gweler yr adroddiad.

Sefyllfa anhysbys yw Brexit. Hyd nes y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn egluro ac yn cadarnhau'r sefyllfa o ran yr Undeb Ewropeaidd, bydd yr effaith bosibl ar wahanol gymunedau a chymunedau penodol yng Nghwm Taf yn parhau i fod yn ffactor anhysbys. Serch hynny, gallwn ni dybio y bydd effaith negyddol ar ardaloedd llai llewyrchus yng Nghymru oherwydd mae ganddyn nhw hawl gadwedig i'r lefel uchaf o gymorth rhanbarthol gan yr Undeb Ewropeaidd (Beatty and Fothergill, 2014), ac mae hynny'n annhebygol o barhau.

Dydyn ni ddim yn ymwybodol o farn y busnesau yng Nghwm Taf ar eu rôl neu eu cyfraniad at wella llesiant pobl. Yn y dyfodol, hoffen ni archwilio'r agwedd yma ar lesiant gyda busnesau yng Nghwm Taf.

Mae'r awdurdodau lleol yng Nghwm Taf yn rhan o Gytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd y cytundeb ei arwyddo ym mis Mawrth 2016 a'r bwriad yw hybu twf economaidd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; serch hynny, dim ond hyn a hyn o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'r deilliannau economaidd cyffredinol maen nhw eisiau eu cyflawni neu'r effaith ddisgwyliedig ar lesiant.

Mae'r wybodaeth a gafodd ei defnyddio ar gyfer ystyried economi carbon isel yn canolbwyntio ar y defnyddiwr terfynol ar ffurf data allyriadau. Dydyn ni ddim yn gwybod yr effaith bosibl yn sgil mesurau arbed ynni ar raddfa fach ar ein hôl troed carbon o'i chymharu â'r newid cenedlaethol o ran defnyddio tanwydd cynaliadwy (ynni solar, gwynt, dŵr a'r llanw).

Yn y nod llesiant, “Cymru lewyrchus”, mae'r term “arloesol” yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at gymdeithas, ond ychydig o wybodaeth sydd gennym ni ynglŷn â phryd a gwedd y gymdeithas arloesol. Dyma rywbeth bydd angen i ni ei wybod yn y dyfodol.

Effaith troseddu ar dwf economi leol gydnerth, ac ystyried canfyddiadau'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r cynlluniau peilot o ran Troseddu Cyfundrefnol ym maes Caffael yng nghyd-destun Cwm Taf.

Siaradodd pobl yn anecdotaidd am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol sy'n dod yn sgil datblygu parciau manwerthu, a dylanwad y parciau manwerthu hynny ar ganol trefi. Byddai'n helpu i archwilio'r safbwyntiau cadarnhaol a negyddol yn sgil y cyfraddau uchel o unedau masnachol gwag yng nghanol trefi, gan gyfeirio yn benodol at ardaloedd yng Nghwm Taf.

Mae rôl ymwelwyr a thwristiaeth yn yr economi leol eisoes wedi'i amlygu yn y Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae

angen i ni wybod sut mae'r cynlluniau hyn yn cysylltu â gwahanol feysydd llesiant ar gyfer hyrwyddo a gwella ardaloedd fel eu bod nhw'n ddeniadol i ymwelwyr.

## *Helpu symudiad pobl yng Nghwm Taf.*

Mae tirwedd ddaearyddol Cwm Taf wedi golygu bod y prif lwybrau trafnidiaeth yn dilyn topograffi'r cymoedd o gyfeiriad y gogledd i'r de tuag at Gaerdydd, gan arwain at deithiau hirach ac anoddach rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Yn gyson, wrth sgwrsio â phobl leol, maen nhw'n sôn bod trafnidiaeth a chostau trafnidiaeth yn rhwystr i fanteisio ar waith, gyda rhai'n sôn am dlodi trafnidiaeth.

O ran cysylltiadau, mae Merthyr Tudful yn awdurdod lleol mwy cryno â phellteroedd teithio byrrach o fewn ei ffiniau o'i gymharu â Rhondda Cynon Taf, lle mae'r pellteroedd teithio yn hirach. Mae'r pellter cyfartalog sy'n cael ei deithio gan bobl gyflogedig ym Merthyr Tudful (15.5km) yn fyrrach nag yn Rhondda Cynon Taf (16.3km) ac yng Nghymru (16.7km).

Ym Merthyr Tudful, mae 44% o bobl gyflogedig yn teithio llai na 5km i'r gwaith.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae 44% o bobl gyflogedig yn teithio llai na 10km i'r gwaith.

O ran trafnidiaeth gyhoeddus, soniodd pobl yng Nghwm Taf fod cost trafnidiaeth yn broblem, a sôn hefyd fod modd gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth, yn enwedig i ysbytai, er enghraifft[7]. Roedd rhai o'r bobl ym Merthyr Tudful o'r farn bod trafnidiaeth gyhoeddus ddrud ac anhyblyg yn eu hatal nhw rhag teithio ymhellach i'r gwaith. Maen nhw o'r farn bod perchen ar gerbyd yn hanfodol, yn enwedig i'w ddefnyddio ar gyfer cael mynediad at waith neu hyfforddiant, gan ddweud: “Cefais hyd i waith, ond doeddwn i ddim yn gallu cyrraedd yno; doedd y drafnidiaeth ddim yn addas.”

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Pe bydden ni'n gallu gwella cysylltiadau rhwng cymunedau trwy sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ar gael ar draws Cwm Taf, bydden ni'n debygol o greu amodau sy'n cyfrannu at ddileu rhwystrau a hwyluso symudiad pobl.

## O beidio â chynnal neu wella llesiant mewn perthynas â'r pennawd yma, beth yw'r risgiau?

Mae angen i gysylltiadau rhwng cymunedau fynd y tu hwnt i'r prif lwybrau prifwythiennol ac i mewn i'r cymunedau ymylol. Gall cyfleoedd ar gyfer

[7] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016)

rhwydweithiau seilwaith gwyrdd helaeth, sy'n cefnogi teithio llesol, gyfrannu at wella bioamrywiaeth a chaniatáu i bobl a bywyd gwyllt deithio trwy ardaloedd trefol.

Yn sgil sgyrsiau lleol, daeth i'r amlwg bod pobl yn ystyried ceir, bysiau neu drenau yn brif ddulliau teithio. Wrth feddwl am drafnidiaeth, roedd ychydig o bobl yn cyfeirio at feicio a cherdded fel opsiynau ymarferol. Yn gyffredinol, doedd y bobl ddim o'r farn bod teithio llesol yn opsiwn ymarferol, a gall hynny olygu y gallai fod yn anodd cyflwyno teithio llesol fel dewis amgen cyn newid canfyddiad pobl a dileu rhwystrau.

Gallai gwella opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, a'r drafnidiaeth gyhoeddus mae modd ei defnyddio, ganiatáu i ragor o unigolion a theuluoedd fod yn annibynnol a gwella symudedd y rhai heb fynediad at gerbyd personol. Ar hyn o bryd mae gwasanaeth bws cyfyngedig ar gael ym Merthyr Tudful ar ôl 6pm neu ar ddydd Sul (heblaw llwybrau i Gaerdydd)[8].

## *Pobl mewn gwaith da yn gwella eu cyfoeth cyffredinol.*

Y gyfradd tlodi mewn gwaith yw'r nodwedd fwyaf neilltuol o dlodi ar hyn o bryd oherwydd dydy gwaith ddim bob tro yn gyfle i wella cyfoeth cyffredinol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2012). Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree (2016) mae 55% o bobl mewn tlodi yn aelodau o gartref sydd ag aelodau sy'n gweithio, a dyma'r ganran uchaf erioed. Mae angen i waith da olygu “gwaith sy'n talu'n dda”, ac mae hynny'n bwysig os oes disgwyl i waith arwain y ffordd at wella cyfoeth cyffredinol. Mae'r gyfradd cyflog wrth yr awr yn dangos bod pobl sy'n gweithio ym Merthyr Tudful yn fwy tebygol o gael gwaith am dâl is a chronni enillion ariannol yn arafach na phobl yn Rhondda Cynon Taf neu yng Nghymru.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (2016) hefyd yn tynnu sylw at yr hyn gafodd ei ddweud mewn sgyrsiau cenedlaethol, sef “too often, people's experiences of trying to get out of poverty tell a story of barriers and traps, rather than routes out”. Mae hyn yn adleisio'r heriau mae pobl ddi-waith yng Nghwm Taf wedi'u hwynebu, sef cyfleoedd cyflogaeth annigonol[9] a nifer o rwystrau i gyflogaeth, yn enwedig diffyg cymorth defnyddiol neu arweiniad (Whealle, 2016).

Mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghwm Taf yn tyfu ac mae diweithdra tymor hir (dros 12 mis) yn lleihau; serch hynny, mae'r lefelau o ran oedolion a phobl ifainc yn parhau'n waeth na Chymru. Yr her yng Nghwm Taf yw helpu pobl i ddatblygu eu

---

[8] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016)

[9] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016) ac Whealle (2016)

hadnoddau (sgiliau, gwybodaeth ac ati) ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu fel bod modd iddyn nhw gael cyflogaeth addas.

Mae cyflogaeth a chyfoeth cyffredinol yn effeithio ar lesiant oherwydd mae perthynas gadarnhaol rhwng cyfoeth, incwm a llesiant rhywun (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015). Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried effaith diweithdra tymor hir (dros 12 mis) ar lesiant unigolion: "generally, long-term unemployment adversely affects people's mental and physical well-being and it is one of the most significant causes of poverty for their households" (Petrongolo, 2014).

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Os bydd modd i ni ddileu rhwystrau i gyflogaeth, yn enwedig o ran diweithdra tymor hir, a datblygu cyfleoedd cyflogaeth addas yng Nghwm Taf, byddwn ni'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar unigolion a chynyddu lefelau boddhad bywyd, ymdeimlad o werth a hapusrwydd, yn ogystal â lleihau lefelau gorbryder.

## O beidio â chynnal neu wella llesiant mewn perthynas â'r pennawd yma, beth yw'r risgiau?

Mae rhaid i weithio fod yn werth chweil. Wrth ystyried ffactorau fel cyflogau isel, costau gofal plant a theithio, gall fod yn well ar bobl beidio â gweithio. Gall rhywun fod yn gweithio ac yn byw mewn tlodi, a gall rhywun fod yn byw ar fudd-daliadau a chael digon o arian ar gyfer popeth sydd ei angen arno a mwy. Mae angen i'r economi fod o fudd i deuluoedd ar incwm bach, ac mae angen iddi sicrhau cyflogaeth ddigon da i wella amgylchiadau ariannol teuluoedd. O beidio â gwneud hynny, bydd tlodi mewn gwaith yn parhau i dyfu.

Mae'r Cyflog Byw gwirfoddol yn gyfle i dalu isafswm cyflog wrth yr awr i weithwyr. Mae hyn yn darparu safon byw gymedrol, ond derbyniol, sy'n uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol[10]. Yn ôl Sefydliad Bevan (2016) mae buddion y Cyflog Byw yn cynnwys buddion ariannol a llawer mwy; mae ennill Cyflog Byw yn gwella bywyd teuluol, a dewisiadau a llesiant.

Mae'r llwybr i gyflogaeth yn dechrau adeg geni[11] ac yn parhau hyd at fod yn oedolyn. Mae nifer o raglenni[12] a phrosiectau[13] sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer

---

[10] Aeth Sefydliad Bevan ati i archwilio canlyniadau posibl y Cyflog Byw, drwy gasglu profiadau a dealltwriaeth cyflogwyr, undebau llafur ac ymgyrchwyr eraill ynglŷn â'r Cyflog Byw gwirfoddol. Mae'r canfyddiadau ar gyfer Merthyr Tudful a Chymru ar gael i'w harchwilio yn y deunyddiau sydd wedi'u cyhoeddi.

[11] Mae addysg o'r blynyddoedd cynnar hyd at fod yn oedolyn yn cael ei harchwilio o dan y pennawd sgiliau a chymwysterau

cefnogi oedolion o oedran gweithio i wella eu rhagolygon cyflogaeth ar draws Cwm Taf. Mae angen i ni gydweithio i sicrhau bod y rhaglenni a'r prosiectau hyn yn gwneud y mwyaf o'u heffaith drwy integreiddio eu hamcanion.

## Pa wybodaeth ychwanegol y byddai'n helpu mewn perthynas â'r pennawd yma?

Yn y nod llesiant, "Cymru lewyrchus", mae'r term "addas" yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at waith, ond mae'n amwys, felly, mae angen i ni ddeall pryd a gwedd y gwaith addas. Mae'r adroddiad yma'n tybio bod "addas" yn golygu cyflog da, ond bydd angen cadarnhau hyn yn y dyfodol.

Mae Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn mynegi disgwyliad i gynyddu nifer y bobl sy'n symud i gyflogaeth (gan gynnwys y rheini sydd wedi bod allan o waith ers amser hir) ar draws Cwm Taf. Rydyn ni'n disgwyl y bydd Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhoi manylion clir yn y dyfodol am sut bydd yn cyflawni hyn.

Mae rôl ymwelwyr a thwristiaeth yn yr economi leol eisoes wedi'i hamlygu, ond mae angen i ni ddeall effaith leol y diwydiant twristiaeth ar enillion posibl i weithwyr.

Ar hyn o bryd, mae rhieni â phlant 3 oed a 4 oed yn cael manteisio ar addysg gynnar am o leiaf 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Serch hynny, mae angen i ni wybod sut bydd y Llywodraeth yn cyflawni ei hymrwymiad i ddarparu gofal plant am ddim am 30 awr yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 oed a 4 oed.

Yn ôl y sgyrsiau, roedd effaith gwirfoddoli fel llwybr at waith yn cael ei hystyried yn ffactor arwyddocaol a chadarnhaol. Byddai'n ddefnyddiol archwilio'r mater yma yn fwy ffurfiol.

Lefel y ddarpariaeth gofal plant ar draws Cwm Taf a sut bydd darparu gofal plant ac addysg gynnar am ddim am 30 awr yr wythnos ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru, am 48 wythnos y flwyddyn, ar gael yng Nghwm Taf.

## Cipolwg ar y dyfodol.

Ehangu'r sefydliadau ar draws Cwm Taf sy'n ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw gwirfoddol.

---

[12] Rhaglenni cenedlaethol, fel Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl a Dechrau'n Deg

[13] Prosiectau sy'n cael cyllid Ewropeaidd, fel Cymunedau am Waith, Pontydd i Waith 2 a Sgiliau Gwaith i Oedolion 2

Sefydliadau ar draws Cwm Taf yn cynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth i gyrraedd cyfradd cyflogaeth o 87.5% erbyn 2036.

Yn ystod yr 20 mlynedd rhwng nawr (2016) a 2036, yn ôl amcangyfrif, byddai angen i tua 30,000 o bobl yng Nghwm Taf ddechrau cyflogaeth. Mae'n golygu llenwi'r swyddi presennol a chreu swyddi newydd fel bod modd i'r bobl ddi-waith a'r bobl sy'n newydd i'r farchnad gyflogaeth sicrhau cyflogaeth yn ardal Cwm Taf, yn ogystal â sicrhau bod modd i'r rhai mewn cyflogaeth ar hyn o bryd barhau i gael eu cyflogi. Mae hyn yn cyfateb i 22,000 o bobl yn cael gwaith yn Rhondda Cynon Taf ac 8,000 o bobl yn cael gwaith ym Merthyr Tudful.

***Pobl yn ennill cymwysterau a sgiliau newydd i fynd i'r afael â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.***

Ymhlith yr agweddau mae'r nod llesiant, "Cymru lewyrchus", yn canolbwyntio arnyn nhw mae datblygu cyfalaf dynol[14] ymhlith y boblogaeth. Mae Addysg a Dysgu Gydol Oes yn brif ffynonellau datblygu cyfalaf dynol. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012): "We have found overwhelming evidence that children's life chances are most heavily predicted on their development in the first five years of life. It is family background, parental education, good parenting and the opportunities for learning and development in those crucial years that together matter more to children than money, in determining whether their potential is realised in adult life."

Yng Nghwm Taf, mae cyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion yn cynyddu ac mae mwy o bobl yn ennill cymwysterau; serch hynny, mae'r lefelau cyffredinol o ran cyrhaeddiad a chymwysterau yn is na lefelau Cymru. Mae plant sy'n cael eu magu mewn teuluoedd tlotach[15] yn gadael yr ysgol â lefelau is o ran cyrhaeddiad addysgol, ac mae hynny'n ffactor o bwys sy'n cyfrannu at batrymau symudedd cymdeithasol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2012). Mae'r bwlch o ran prydau ysgol am ddim yn lleihau ym Merthyr Tudful, ond mae'n cynyddu yn Rhondda Cynon Taf mewn nifer o gyfnodau allweddol.

Ar draws Cwm Taf, mae'r plant sy'n fwy tebygol o adael yr ysgol ac wynebu mwy o her oherwydd cyrhaeddiad is yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion addysgol arbennig a phlant gwyn Prydeinig.

[14] Yn ôl y diffiniad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ('OECD'), cyfalaf dynol yw gwybodaeth, sgiliau, cymwyseddau a phriodoleddau sydd wedi'u hymgorffori mewn unigolion sy'n hwyluso creu llesiant personol, cymdeithasol ac economaidd (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2001).

[15] Wrth ddefnyddio statws prydau ysgol am ddim i gynrychioli statws economaidd-gymdeithasol, dylai gael ei drin â gofal (Hobbs a Vignoles, 2007).

Mae canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (‘PISA’) [16] yn 2015 yn amlygu her ehangach ar gyfer Cymru fel cyfrannwr at y farchnad lafur fyd-eang. Mae Jerrim a Shure (2016) yn crynhoi'r newid yng Nghymru ers 2006, sef:

- Yn ystadegol, bu dirywiad sylweddol yn y sgôr cyfartalog ar gyfer gwyddoniaeth yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr;
- Does dim llawer o dystiolaeth o newid cyson yn y sgôr cyfartalog ar gyfer mathemateg yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr;
- Yn ystadegol, fu dim newid sylweddol yn y sgôr cyfartalog ar gyfer darllen yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr;

Mae Jerrim a Shure (2016) hefyd yn amlygu mai dim ond 6% o'r amrywiad o ran cyflawniad myfyrwyr Cymru mae modd ei briodoli i'w cefndir economaidd-gymdeithasol; yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig mae modd egluro 11% o'r amrywiad gan gefndir economaidd-gymdeithasol.

Cafodd sylw ei roi i rôl addysg wrth helpu pobl i feithrin sgiliau bywyd, fel rheoli arian, oherwydd yr heriau penodol mae llawer o bobl yn eu hwynebu yng Nghwm Taf. Roedd yn bwysig bod rhieni, ar y cyd ag ysgolion, yn cymryd cyfrifoldeb; er enghraifft roedd rhieni'n cydnabod bod angen cymorth: “Os ydych chi'n rhiant sydd ddim yn gwybod sut i reoli arian, sut rydych chi'n mynd i helpu'ch plant?” (Whealle, 2016). Dydy'r neges yma ddim wedi'i chyfyngu i reoli arian ac mae modd ei throsglwyddo i unrhyw ddiffygion sgiliau eraill lle does gan rieni a theuluoedd yr hyder i ddatblygu.

Mae'r angen i ennill sgiliau lefel uwch yn her sylweddol yng Nghwm Taf. Mae'n fwyaf amlwg i'r bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur, sy'n sôn am yr angen i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd i'w galluogi nhw i gyflawni'r heriau bob dydd (Whealle, 2016). Siaradodd eraill am ddatblygu sgiliau pobl mewn gwaith a phobl allan o waith, yn enwedig sgiliau cyfathrebu [17], oherwydd pwysigrwydd datblygiad parhaus, dilyniant gyrfa a pharatoi ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Mae'n bwysig oherwydd mae'n cael ei ragweld y bydd y rhan fwyaf o swyddi newydd a swyddi gwag mewn galwedigaethau ar lefel uwch lle bydd angen i unigolion ennill sgiliau lefel uwch er mwyn manteisio ar y swyddi hynny (Winkler, 2015).

---

[16] Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (‘PISA’), dan arweiniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (‘OECD’), yn darparu tystiolaeth ynglŷn â sut mae cyflawniad a galluoedd plant 15 oed yn amrywio ar draws y gwledydd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

[17] Hwb Ymgysylltu Cwm Taf (2016)

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Mae gwella sgiliau ac addysgu pobl yn gyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant oherwydd mae'n helpu unigolion i ddatblygu eu cronfa adnoddau (sgiliau a gwybodaeth) i ymateb i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Mae'n debyg bod cymwysterau ar lefel uwch a dysgu ffurfiol ac anffurfiol parhaus yn gysylltiedig â llesiant goddrychol unigol gwell (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012).

## O beidio â chynnal neu wella llesiant mewn perthynas â'r pennawd yma, beth yw'r risgiau?

Mae'r rhai sy'n nodi nad oes ganddyn nhw ddim cymwysterau addysgol yn fwy tebygol o fod ar incwm cymharol isel neu'n economaidd anweithgar, ac mae'r rhai â gradd neu uwch yn llai tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2015). Os byddwn ni'n canolbwyntio ar wella sgiliau pobl, byddan nhw'n gallu cyflawni heriau anoddach (Dodge ac eraill, 2012).

Yng Nghymru, mae darpariaeth cymorth y blynyddoedd cynnar ar gael mewn ardaloedd penodol yng Nghwm Taf drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r rhaglen yn cynnig gofal plant o ansawdd am ddim i blant rhwng 2 oed a 3 oed. Mae hefyd yn cynnig cymorth magu plant, gwasanaeth ymwelwyr iechyd manwl a chymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae effaith y rhaglen yma'n destun gwerthusiad cenedlaethol; serch hynny, roedd anghytuno â mynediad i'r gwasanaeth, gyda'r dull daearyddol (cod post) yn cael ei feirniadu yn gyson fel "annheg" a'r farn bod "teuluoedd sy'n gallu talu am eu gofal plant eu hunain yn cael mwy o help na mi" (Whealle, 2016).

Mae pob disgybl yn derbyn addysg sgiliau llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion, ac mae rhaglenni gwrthdlodi yr awdurdod lleol yn cyfrannu at gydlynu darpariaeth sgiliau hanfodol i oedolion. Mae'r oedolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni yn sôn am fanteision rhaglenni addysg i oedolion o ran dysgu sgiliau byw (Whealle, 2016).

## Pa wybodaeth ychwanegol y byddai'n helpu mewn perthynas â'r pennawd yma?

Dydyn ni ddim yn gwybod pa ofynion sgiliau penodol i'w canolbwyntio arnyn nhw y tu hwnt i'r sgiliau craidd, sef llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Bydd gennym ni ddealltwriaeth well o ofynion sgiliau'r dyfodol trwy ddatblygu strategaethau economaidd a gwrthdlodi lleol.

Ers 2000, mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglenni cyflogadwyedd, sydd wedi buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gweithlu ar draws

Cwm Taf. Mae cymhlethdod dileu trefniadau ariannu'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod gwybodaeth ychwanegol yn hanfodol i ddeall y goblygiadau tebygol ar gyfer rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Mae datblygu sgiliau yn rhan o raglenni gwrthdlodi pob awdurdod lleol ar hyn o bryd, ac mae'r prosiectau'n cynnwys datblygiad blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd a llwybrau cyflogaeth. Mae'r rhaglenni cyfredol yn newid trwy ailstrwythuro ac alinio, sy'n fater strategol y bydd angen i ni wybod ei ganlyniad er mwyn cynllunio yn y dyfodol.

## Cipolwg ar y dyfodol

Sefydliadau ar draws ardal Cwm Taf yn gwella sgiliau'r boblogaeth o oedran gweithio, felly, fydd dim ond 5% heb unrhyw gymwysterau erbyn 2036.

Yn ystod yr 20 mlynedd rhwng nawr (2016) a 2036, yn ôl amcangyfrif, byddai angen i tua 11,350 o bobl yng Nghwm Taf ennill cymhwyster. Mae'n golygu cynyddu'r sgiliau sydd gan y gweithlu ar hyn o bryd, a sicrhau bod y rhai sy'n newydd i'r gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol. Mae hyn yn cyfateb i 8,135 o bobl yn ennill cymhwyster yn Rhondda Cynon Taf a 3,215 o bobl yn ennill cymhwyster ym Merthyr Tudful.

## *Datblygu sy'n hwyluso tyfu economi leol ac sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang.*

Mae lle rydyn ni'n byw yn cael effaith sylweddol ar ein llesiant. Mae cynlluniau datblygu lleol yn egluro polisïau cynllunio defnydd tir a chynigion i benderfynu datblygiadau a llywio cyfleoedd buddsoddi a thwf. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys dyrannu defnydd tir ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu – er enghraifft tai, cyflogaeth, manwerthu, addysg, mannau agored ac ati – yn ogystal â meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol.

Gall yr amgylchedd naturiol ac adeiledig gael effaith fawr ar gyfleoedd ac ymddygiad pobl (Pinoncely, 2016). Mae deilliannau iechyd, addysg, rhagolygon cyflogaeth a chyfleoedd i gronni cyfoeth ac i wella llesiant yn cael eu dylanwadu gan statws economaidd-gymdeithasol pobl, a lle maen nhw'n byw (Pinoncely, 2016). I dyfu economi leol, dylai'r rhaglenni gynnwys anghenion cynllunio i gwmpasu cysylltiadau trafnidiaeth, mynediad i amwynderau a gwasanaethau lleol, a chymunedau mwy diogel (Pinoncely, 2016). Mae'r rhain i gyd yn bwysig i greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a thrigolion lleol.

Yng Nghwm Taf, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (maes tai) yn amlygu nifer o ardaloedd[18] sy'n wynebu lefelau sylweddol o amddifadedd tai. Mae'r ardaloedd hyn yn cyflwyno her benodol, ac mae Wilkinson (1999) yn crynhoi blynyddoedd o dystiolaeth gwaith ymchwil i ddangos y cysylltiadau rhwng tai ac iechyd, sy'n ategu'r ddadl bod tai o ansawdd da yn cyfrannu at faterion iechyd meddwl a chorfforol. Mae cyfleoedd ar gael i wella iechyd meddwl trwy dargedu adfywio mewn cymdogaethau difreintiedig (White ac eraill).

O ran y bobl sy'n byw mewn cartref sy'n eiddo llwyr iddyn nhw neu maen nhw'n ei brynu â morgais neu fenthyciad, mae eu llesiant yn sylweddol uwch na llesiant y rhai sy'n rhentu eu cartref neu sy'n talu cyfuniad o rent a morgais[19]. Yng Nghwm Taf mae tai ar gyfartaledd yn fwy fforddiadwy nag yng Nghymru; serch hynny, gall fforddiadwyedd dal i fod yn fater allweddol i bobl o ystyried cyflogau is, yn enwedig ym Merthyr Tudful, a fforddiadwyedd morgeisi.

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Bydd cysylltu'r dulliau datblygu ac adfywio sy'n cryfhau amgylchedd adeiledig a naturiol yn debygol o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ein cymunedau.

## O beidio â chynnal neu wella llesiant mewn perthynas â'r pennawd yma, beth yw'r risgiau?

Bydd rhaid ystyried dosbarthiad gofodol datblygiadau tai newydd, a'u cyflwyno nhw yn raddol, i sicrhau eu bod nhw'n hyfyw a bod modd i'r seilwaith sydd yno yn barod ymdopi, neu fod modd darparu seilwaith newydd i sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn gynaliadwy. Heb gynllun datblygu lleol mae'n debygol y bydd dull llai cydgysylltiedig ar gyfer darparu cyflogaeth newydd, tai a seilwaith ar draws Cwm Taf.

## Pa wybodaeth ychwanegol y byddai'n helpu mewn perthynas â'r pennawd yma?

Mae amrywiaeth sylweddol o ran ansawdd y stoc tai, ac effeithlonrwydd ynni'r stoc tai, ar draws Cwm Taf. Byddai data mwy manwl yn ddefnyddiol i helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o gyflwr yr eiddo a'r cyfleoedd i wella.

---

[18] Merthyr Tydfil (Y Dref 1, Penydarren 1, Parc 3, Ynysowen 2 a Gurnos 3)
Rhondda Cynon Taf (Aberpennar Gorllewin 2, Rhydfelen Canol / Llan 2)

[19] Dyma ran o'r cyhoeddiad Measuring National Well-being: Personal Well-being in the UK, 2014/15, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 23 Medi 2015.

# 4. Cysylltiadau â themâu eraill yng nghyd-destun llesiant

Yn hytrach na sefyll ar wahân, mae gan lesiant economaidd gysylltiadau â nifer o themâu eraill yng nghyd-destun llesiant.

O ran cael mynediad i gyflogaeth a chronni cyfoeth, soniodd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn rhaglenni gwrthdlodi Llywodraeth Cymru fod rhaid iddo fod yn werth chweil i rywun fynd i'r gwaith. Ymhlith y ffactorau sy'n golygu nad yw mynd i'r gwaith yn werth chweil mae gofal plant drud a chostau teithio (Whealle, 2016).

Gall datblygu seilwaith gwyrdd gael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth drwy ddenu rhagor o ymwelwyr (gwariant) a gwneud ardaloedd lleol yn fwy deniadol i dwristiaid, busnesau ac ymwelwyr.

Mae creu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn darparu manteision iechyd drwy leihau effaith trafnidiaeth ar allyriadau carbon, sy'n gwella ansawdd yr aer. Gall hyn hefyd annog gweithgaredd corfforol, sy'n darparu manteision o ran iechyd meddwl a chorfforol.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn ffynhonnell brogarwch ar gyfer pobl, o ran bod yn falch o dreftadaeth a harddwch eu hardal leol. Serch hynny, roedd thema amlwg wrth sgwrsio â phobl o bob oed, sef bod angen gwneud mwy i gadw'r ardal leol yn lân ac yn daclus (Elliott ac eraill, 2016). Mae mannau gwyrdd sy'n lân ac yn daclus yn cyfrannu at wella iechyd meddwl a chorfforol, ac mae pobl yn fwy tebygol o gynyddu eu defnydd o fannau awyr agored os yw'r mannau hynny yn derbyn gofal.

Archwilio gwerth mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr o ran cynnal a datblygu cyfalaf diwylliannol trwy brosiectau ar lawr gwlad – er enghraifft, eu cyfraniad at weithgareddau ataliol, iechyd, troseddu, ansawdd yr amgylchedd a chydlyniant cymdeithasol. Lle mae grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ac yn buddsoddi mewn cyfalaf amgylcheddol lleol, neu'n gwella cyfalaf amgylcheddol lleol.

Mae effaith troseddu ac ofn troseddu ar lesiant pobl yn dangos, yn ystadegol, wahaniaeth arwyddocaol rhwng dioddefwyr a'r rhai sydd ddim yn ddioddefwyr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015). Mae pobl ifainc yn fwy tebygol o ddioddef troseddau, hefyd felly mae'r rhai sy'n ddi-waith, neu sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu sy'n byw yn un o'r ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015). Bydd effaith troseddu yn fwyaf amlwg ar yr unigolyn dan sylw, ond bydd cymunedau hefyd yn cael eu heffeithio gan droseddu.

## Pa wybodaeth ychwanegol y byddai'n helpu mewn perthynas â'r penawdau i gyd?

Mapio gofodol ac archwilio setiau data ar draws holl feysydd llesiant i ddatblygu ein dealltwriaeth o ardaloedd bach ar draws Cwm Taf.